# Amgueddfa Cymru, PCS, Prospect ac FDA

# Datganiad Partneriaeth Gymdeithasol Gyfun

# 2025-2026

**Cyflwyniad**

Mae Amgueddfa Cymru a'n Undebau Llafur cydnabyddedig - PCS, Prospect ac FDA - wedi ymrwymo i gydweithio mewn partneriaeth gymdeithasol, fel yr amlinellir yn **Neddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru).** Ein nod cyfun yw cryfhau ein dulliau o gydweithio er mwyn gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol pobl Cymru drwy wneud penderfyniadau effeithiol, tryloyw ar y cyd.
Datganwyd yr ymrwymiad hwn hefyd yn yr egwyddorion partneriaeth a ddatblygwyd ar y cyd, a'r gwaith ymarferol sydd wedi'i wneud yn barod.

**Egwyddorion Cyfun**

Gyda'n gilydd, rydyn ni'n ymrwymo i:

- Gydweithio i sicrhau llwyddiant a chynaliadwyedd hirdymor Amgueddfa Cymru
- Cyfathrebu agored a thryloyw, a thrafod prydlon ar ddechrau prosesau penderfynu
- Cydnabod rôl a buddiannau dilys ein gilydd
- Canolbwyntio ar safon bywyd gwaith a gwneud egwyddorion gwaith teg yn greiddiol
- Ychwanegu gwerth drwy bartneriaeth, ac adeiladu ymddiriedaeth rhwng yr Amgueddfa, y staff a'r Undebau Llafur

**Partneriaeth Gymdeithasol Ymarferol**

**1. Datblygu Polisi wedi'i lywio gyda a gan Undebau Llafur**

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae cynrychiolwyr Undebau Llafur wedi chwarae rôl flaenllaw yn llywio, adolygu, a datblygu polisïau sefydliadol, gan gynnwys:

- **Cod Ymddygiad** - wrthi'n cael ei adolygu gan y Cynrychiolwyr Undeb
- **Gweithgarwch Gwleidyddol a Swyddi dan Gyfyngiad Gwleidyddol** - wedi derbyn sêl bendith llawn yr Undebau cyn cymeradwyaeth y Bwrdd.

- **Polisi Aflonyddu Rhywiol**, a sawl polisi AD arall - mae'r Undebau Llafur wedi gweithredu fel ymgynghorwyr a phartneriaid er mwyn llywio newidiadau, gan ddefnyddio'u harbenigedd a helpu  i ddatblygu'r polisïau gyda'r Tîm Arwain.

Mae'r Undebau Llafur wedi ymrwymo i fuddsoddi yn sgiliau eu cynrychiolwyr i ddarparu hyfforddiant a dyfnhau eu dealltwriaeth o ddeddfwriaeth newydd ac arferion gorau, fydd yn gwneud ein gwaith o ddatblygu polisïau yn fwy gwydn.

### 2. Cydweithio ar Newid Sefydliadol (Patrymau Sifft a Ffyrdd o Weithio)

Rydyn ni wedi gwneud gwaith sylweddol gyda'r Undebau Llafur i aildrefnu patrymau gwaith, rota a modelau staffio gweithredol:

- Yn ystod rhaglen **Llywio ein Dyfodol** helpodd cyfraniad yr Undebau i osgoi diswyddiadau gorfodol, diolch i ymgynghori a datrys problemau ar y cyd - gwaith sydd wedi parhau hyd heddiw.
- Datblygwyd newidiadau i **batrymau sifft ac oriau contract** drwy gynnig dewisiadau i staff ar y cyd â'r Undebau Llafur, gan roi cyfle i'r staff brofi'r newid, codi pryderon, ac ystyried y cynigion yn drylwyr.
- Trafodwyd cyn ac ar ôl cyflwyno'r contractau newydd, gyda'r Undebau yn gwneud cyfraniad gwirioneddol i welliannau a chyfathrebu â staff.
- Mae'r Amgueddfa wedi ymrwymo i adolygu llwyddiant y newidiadau hyn gyda'r Undebau.

Mae'r dull hwn yn adlewyrchu gofynion y Ddeddf i **gynnwys, cydweithio, a gwarchod**, ac yn brawf o bartneriaeth aeddfed, adeiladol.

### 3. Gwaith Partneriaeth Gymdeithasol At y Dyfodol

#### 3.1 Trefnu Gweithlu a Newidiadau Deddfwriaethol sydd Ar y Gweill

Rydyn ni wedi dechrau cyd-baratoi er mwyn bod yn barod ar gyfer newidiadau i'r ddeddfwriaeth gyflogaeth yn 2026, gan gynnwys:

- Adolygu polisïau sydd angen eu diweddaru o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth
- Asesu effaith ar arferion gwaith
- Sicrhau ein bod yn cyfathrebu'n glir â'r partneriaid Undebau Llafur

#### 3.2 Sefydlu Panel Gwerthuso / Graddio Swyddi

Rydyn ni'n rhannu'r awydd i sicrhau bod gwerthuso swyddi'n broses agored, **deg a thryloyw:**

- Cynnwys yr Undebau wrth raddio swyddi
- Hyfforddiant i gynrychiolwyr Undebau asesu swyddi'n hyderus
- Gwaith cynnar i sicrhau ein bod ni'n gwerthuso drwy baneli, a sicrhau cysondeb.

**3.3 Gwirfoddwyr**

Byddwn ni'n parhau i gydweithio'n agos â'r Undebau Llafur cydnabyddedig i greu a chytuno ar ddisgrifiadau o rolau gwirfoddol, fel bod y disgwyliadau'n glir, cyson a chefnogol. Bydd y disgrifiadau hyn yn cael eu cytuno ymlaen llaw, gan helpu i atgyfnerthu bod gwaith gwirfoddol yn ategu swyddi, nid yn eu dibrisio, a bod rhychwant y gwaith yn addas a theg i bawb.

**4. Gwneud Partneriaeth Gymdeithasol yn Greiddiol**

Mae'r Undebau Llafur wedi cael eu cynnwys yn rheolaidd mewn:

- Fforymau Staff misol gyda swyddogion Undeb llawn amser a chynrychiolwyr lleol
- Ymgynghori ffurfiol ar bolisïau a phrojectau newid
- Paneli, grwpiau gweithredol a fforymau partneriaeth.

**Gwersi a Myfyrio**

- Mae ein gwaith gyda'r Undebau Llafur ar adolygu a datblygu polisi wedi bod yn effeithiol a hollol gynhwysol. Mae'r Undebau hefyd wedi arwain gwaith allweddol ar aflonyddu rhywiol a thrais yn y cartref, gan helpu i lywio a chryfhau'r polisïau hyn.

- Mae trosiant staff wedi cyflwyno rheolwyr newydd o'r sector breifat, sy'n golygu bod dealltwriaeth gymysg o'r hyn mae Partneriaeth Gymdeithasol yn ei olygu. Rydyn ni'n cydnabod bod angen am hyfforddiant pellach i feithrin dealltwriaeth gyson a hyder.

- Roedd gwaith iechyd a diogelwch diweddar yn galw am weithredu ar frys i sicrhau bod safonau'n cael eu cyrraedd a'u cadw. Gwers allweddol yw bod cynnwys yr Undebau Llafur ar y dechrau yn dod â budd sylweddol, ac yn helpu i gryfhau ein cyfathrebu â'r staff.

- Mewn blynyddoedd blaenorol, mae cyflog wedi'i setlo cyn setliadau cyflog yn y sector cyhoeddus ehangach yng Nghyrmu. Byddai'r Undebau Llafur nawr yn gwerthfawrogi negodi a thrafod cynharach, er mwyn gallu edrych ar gyflog a buddion yn eu cyfanrwydd.

- Gwnaed y newidiadau i gontractau staff Blaen Tŷ rhwng Tachwedd 2024 a Ionawr 2025. Er bod ymrwymiad cryf i gynnal adolygiad llawn o sut mae'r newidiadau hyn yn gweithio, dim ond yng Nghaerdydd mae

hyn wedi'i gwblhau hyd yn hyn; y bwriad yw gwneud adolygiad ehangach yn 2026.

**Datganiad Ymroddiad 2026/2027**

Gyda'n gilydd, mae Amgueddfa Cymru a'n Partneriaid Undebau Llafur yn ymrwymo i:

1. **Ddatrys problemau ar y cyd yn well**, yn enwedig ym meysydd newid sefydliadol, llwyth gwaith, adnoddau a datblygu gwasanaeth.
2. **Bod yn fwy tryloyw**, gan gynnwys rhannu cynigion, data, a pholisïau drafft.
3. **Rhoi mwy o lais i staff**, drwy baneli ar y cyd ac ymgynghori dan arweiniad yr Undebau.
4. **Gwneud gwaith teg yn greiddiol**, gan gynnwys prosesau gwerthuso swyddi clir a theg.
5. **Hybu lles** drwy gydweithio ar absenoldebau, buddion staff a hyfforddiant.
6. **Adeiladu capasiti**, er mwyn galluogi cynrychiolwyr i gyd-arwain ar waith polisi, hyfforddi a briffio.

Sylfaen y gwaith hwn o hyd fydd y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a'r egwyddorion a rannwn ni.